Department for Environment Food & Rural Affairs
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Environment Agency

**Rhaglen Ymchwil ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

# Offer Perfformiad Asedau


Crynodeb o'r Prosiect SC140005/S

Mae'r prosiect ymchwil hwn wedi datblygu dulliau, offer a chanllawiau i wella’r broses o wneud penderfyniadau ar reoli asedau drwy nodi ble, pryd a sut i ymyrryd er mwyn lleihau perygl llifogydd gan sicrhau’r gost isaf a’r budd mwyaf.

Rheolwyr asedau a'u timau yw'r defnyddwyr targed ar gyfer llawer o'r offer a'r dogfennau canllaw. Bydd y cynnyrch hefyd yn llywio ymchwil yn y dyfodol ac yn ymdrin ag agweddau ar Strategaeth Rheoli Asedau Asiantaeth yr Amgylchedd 2017 i 2022 gan gynnwys cefnogi achrediad i ISO 55000, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli asedau.

Bu'r ffocws ar ddatblygu cynnyrch sy'n ymarferol ac yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n rheoli asedau.

**Fframwaith**
Gwnaeth y prosiect ddatblygu fframwaith trosfwaol sy'n grwpio pedwar gweithgaredd cydrannol: archwilio, perfformiad, risg a chynllunio.




Mae'r fframwaith hwn yn hwyluso asesiad priodol o berfformiad a chyflwr asedau, dadansoddiad risg ac optimeiddiad, gan gefnogi'r symudiad o ddull ymatebol o reoli asedau i ddull rhagweithiol. Mae'n hyrwyddo dadansoddiad oes gyfan a dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg, sy'n gymwys ar gyfer amgylcheddau afonol ac arfordirol. Mae tair lefel o gymhlethdod i'r fframwaith, o ddulliau gweithredu syml a chyflym i ddadansoddiad manwl. Felly gall dulliau gael eu dewis sy'n gymesur â graddfa'r risg a chymhlethdod y penderfyniad.

**Offer a chanllawiau**
Cefnogir y fframwaith hwn gan yr offer a'r dogfennau canllaw i wella’r broses o wneud penderfyniadau ar reoli asedau. Mae'r cynhyrchion hyn fel a ganlyn:

Archwilio
- Canllawiau archwilio asedau (a ddatblygwyd yn flaenorol)

Perfformiad
- Canllawiau asesu capasiti cludo sianeli
- Offeryn llystyfiant a garwedd
- Offeryn addasu cromlin breuder unigol

Risg
- Canllawiau set ddata risg a rag-gyfrifwyd

Cynllunio
- Offeryn arfarnu cost oes gyfan cyflwr targed amddiffyniad uchel
- Canllawiau asesu perfformiad traeth
- Prototeip offer arfarnu sy'n seiliedig ar risg

**Manteision**
Mae manteision yr offer a'r cynhyrchion canllaw yn cynnwys yr isod:
- tystiolaeth sy'n cefnogi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw amddiffyniad llifogydd a sianel neu ei dynnu'n ôl
- help i nodi'r drefn cynnal a chadw asedau orau
- gwella gweithio symudol ar gyfer archwilwyr asedau, gan ddarparu mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd
- help i nodi lefelau priodol o archwilio, ymchwilio neu ddadansoddi
- offer hawdd i'w ddefnyddio sy’n gofyn am y data lleiaf
- galluogi defnydd strwythuredig o wybodaeth leol sy’n ymwneud ag asedau penodol a thystiolaeth feintiol er mwyn gwella’r broses o wneud penderfyniadau a chefnogi trafodaethau â rhanddeiliaid
- gwell disgrifiad o'r berthynas rhwng buddsoddiad a pherfformiad a risg

- tystiolaeth ar gyfer cydymffurfiaeth ag ISO 55000
- lledaenu arfer gorau

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect SC140005, yr adroddwyd amdano yn fanwl yn yr allbwn (allbynnau) canlynol:

**Adroddiad:** SC140005/R1
**Teitl:** Asset Performance Tools: Phase 3 final report

**Adroddiad:** SC140005/R2
**Teitl:** Asset Performance Tools: Channel conveyance assessment guidance

**Adroddiad:** SC140005/R3
**Teitl:** Asset Performance Tools: Improving defence performance curves using local knowledge – methodology

**Adroddiad:** SC140005/R4
**Teitl:** Asset Performance Tools: Pre-calculated risk datasets guidance

**Adroddiad:** SC140005/R5
**Teitl:** Asset Performance Tools: Guidance for beach triggers

**Hydref 2018**

**Rheolwyr prosiect:** Owen Tarrant a Chrissy Mitchell
**Rheolwr thema:** Owen Tarrant, Rheoli Asedau Cynaliadwy

**Contractwr Ymchwil:** CH2M (Jacobs bellach)

**Cydweithredwyr Ymchwil:** HR Wallingford, Royal HaskoningDHV

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: http://evidence.environment-agency.gov.uk/FCERM/en/Default/FCRM.aspx

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd